

# Is-etholiadau i'r Cynulliad

Hysbysiad Hwylus

Hydref 2013

## Cyflwyniad

Ar 18 Mehefin 2013, cyhoeddodd Ieuan Wyn Jones, yr Aelod Cynulliad dros Ynys Môn, y byddai'n rhoi'r gorau i'w sedd yn hytrach na phenderfynu peidio â sefyll yn yr etholiad Cynulliad nesaf yn 2016. Gan ei fod yn Aelod Cynulliad etholaethol, roedd angen cynnal is-etholiad er mwyn ethol olynydd iddo. Mae'r Hysbysiad hwylus hwn yn cynnwys gwybodaeth am y prosesau ar gyfer cynnal is-etholiad; gwybodaeth am is-etholiadau blaenorol a'r hyn sy'n digwydd pan fydd sedd ranbarthol yn dod yn wag. Enillwyd is-etholiad Ynys Môn gan Rhun ap Iorwerth dros Blaid Cymru.

## Sedd etholaethol wag

Mae darpariaeth yn adran 10 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ar gyfer llenwi sedd etholaethol a ddaw'n wag (wedi i Aelod Cynulliad etholaethol farw neu ymddiswyddo, er enghraifft).<sup>1</sup> Mae Rheol Sefydlog 1.8 yn caniatáu i Aelod Cynulliad roi'r gorau i'w sedd yn y Cynulliad drwy **hysbysu'r Llywydd yn ysgrifenedig**. Bydd sedd wag yn codi pan fydd y Llywydd yn cael hysbysiad ynghylch ymddiswyddiad Aelod neu, fel arall, pan fydd y Llywydd yn datgan bod y sedd bellach yn wag.<sup>2</sup>

Rhaid cynnal is-etholiad ar ddyddiad a bennir gan y **Llywydd** a rhaid i'r dyddiad fod o fewn **tri mis** i'r sedd ddod yn wag. Yr unig eithriad i'r rheol hon yw os bydd y dyddiad cynharaf y gellir cynnal is-etholiad o fewn tri mis i'r dyddiad y cynhelir etholiad Cynulliad cyffredin. Os digwydd hynny, bydd y sedd yn aros yn wag.

Ar ôl i'r Llywydd ddatgan fod y sedd yn wag, bydd yn **hysbysu Swyddog Canlyniadau** yr etholaeth Cynulliad o'r dyddiad.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (p.32) [fel ar 18 Mehefin 2013]

<sup>2</sup> Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru [fel ar 18 Mehefin 2013]

<sup>3</sup> *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 UKSI236/2007, Atodlen 5, Rheolau Etholiadau'r Cynulliad 77 a 78* [fel ar 18 Mehefin 2013]

## Is-etholiadau blaenorol

Cynhaliwyd yr is-etholiad Cynulliad cyntaf ym mis Medi 2001 yn dilyn marwolaeth Val Feld AC ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Cafodd Val Lloyd AC ei hethol ar gyfer etholaeth Dwyrain Abertawe.

Cynhaliwyd yr ail is-etholiad ym mis Mai 2006 yn dilyn marwolaeth Peter Law AC. Cafodd ei wraig, Trish Law, ei hethol yn olynnydd iddo fel yr Aelod Cynulliad dros Flaenau Gwent ym mis Mehefin 2006.

## Amserlen

Ar ôl rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau, dylid dilyn yr amserlen a ganlyn:

- Cyhoeddi hysbysiad ynghylch etholiad, heb fod yn hwyrach na chanol dydd y pumed diwrnod ar hugain cyn diwrnod yr etholiad.
- Cyflwyno papurau enwebu erbyn y pedwerydd diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad.
- Cyflwyno hysbysiadau o dynnu ymgeisyddiaeth yn ôl, heb fod yn hwyrach na hanner dydd ar yr ail ddiwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad.
- Cyhoeddi rhestr yr ymgeiswyr, heb fod yn hwyrach na hanner dydd ar yr unfed diwrnod ar bymtheg cyn diwrnod yr etholiad.
- Bydd pleidleisio yn digwydd rhwng 07.00 a 22.00 ar ddiwrnod yr etholiad.

Wrth gyfrif unrhyw gyfnod o amser ar gyfer yr amserlen, ni chaiff diwrnodau penodol, fel gwyliau banc a phenwythnosau eu hystyried.<sup>4</sup>

Caniateir cynnal is-etholiadau yn ystod cyfnod o doriad yn y Cynulliad.

## Sedd ranbarthol wag

Mae darpariaeth yn Adran 11 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ar gyfer llenwi sedd ranbarthol a ddaw'n wag (wedi i Aelod Cynulliad rhanbarthol farw neu ymddiswyddo, er enghraifft). Os mai ymgeisydd oddi ar y rhestr a ddarparwyd gan blaid ar gyfer yr etholiad cyffredinol diwethaf oedd yn y sedd sydd bellach yn wag, **yr ymgeisydd nesaf ar y restr honno fydd yn cael y sedd**, cyhyd â bod y person hwnnw'n dal am gael ei ethol, ac, yn achos person nad yw bellach yn aelod o'r blaid honno, ar yr amod nad yw'r blaid wedi rhoi hysbysiad nad yw am i'r person hwnnw fod yn ymgeisydd.

Mae person sydd wedi bod yn ymgeisydd mewn is-etholiad etholaethol ers yr etholiad cyffredinol hwnnw wedi'i wahardd rhag cymryd sedd ranbarthol, yn yr un modd ag y mae person sydd wedi cael ei ethol i sedd ranbarthol yn flaenorol (ac sydd, er enghraifft, wedi rhoi'r gorau i'w sedd ar ôl ymddiswyddo).

<sup>4</sup> *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 UKSI236/2007, Atodlen 5, Rheolau Etholiadau'r Cynulliad [fel ar 18 Mehefin 2013] Mae Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, nid yw'n hysbus pryd y bydd hyn yn weithredol ac a fydd Rheolau Etholiadau'r Cynulliad yn cael eu diwygio.*

Os, am ba bynnag reswm, na ellir llenwi'r sedd wag o restr plaid (er enghraifft, oherwydd gwaharddiad), bydd y sedd yn aros yn wag tan yr etholiad cyffredinol cyffredin neu anghyffredin nesaf.

Os cafodd yr Aelod Cynulliad rhanbarthol y mae ei sedd bellach yn wag ei ethol fel ymgeisydd unigol yn hytrach na chael ei ddewis oddi ar restr plaid, nid oes gweithdrefn ar gyfer llenwi'r sedd a bydd yn aros yn wag tan yr etholiad cyffredinol cyffredin neu anghyffredin nesaf.<sup>5</sup>

## Seddi rhanbarthol gwag blaenorol

Yn dilyn ei ymddiswyddiad fel Prif Ysgrifennydd y Cynulliad ym mis Chwefror 2000, rhoddodd Alun Michael AC y gorau i'w sedd ranbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, ac fe gymrodd Delyth Evans AC ei le ar y sedd ym mis Mawrth 2000.

Yn 2001, rhoddodd Christine Humphreys AC y gorau i'w sedd ranbarthol dros Ogledd Cymru oherwydd salwch. Cymerodd Eleanor Burnham AC ei lle.

Ym mis Medi 2002, cymrodd David Jones AC le Rod Richards AC yn ei sedd dros Ogledd Cymru, yn dilyn ymddiswyddiad Mr Richards.

Ym mis Mai 2010, cymerodd Veronica German AC le Mike German AC yn y sedd ranbarthol dros Ddwyrain De Cymru yn dilyn ymddiswyddiad Mr German i gymryd sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Is-etholiadau i'r Cynulliad**, cysylltwch ag **Alys Thomas** ([alys.thomas@cymru.gov.uk](mailto:alys.thomas@cymru.gov.uk)), Y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: [www.cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm)

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost at [Research.Service@cymru.gov.uk](mailto:Research.Service@cymru.gov.uk)

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynhyrchu'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant gynghori'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 13/1598**

**Enw'r awdur** Alys Thomas

<sup>5</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) [fel ar 18 Mehefin 2013]*